# Strategaeth Archwilio Mewnol

*Mae'r datganiad strategol canlynol hwn yn ceisio rhoi gwybodaeth i'r rheini sy'n dibynnu ar waith a sicrwydd y Tîm Archwilio Mewnol. Mae'n cyfeirio at ddogfennau craidd, sef y Siarter Archwilio Mewnol (a'i atodiadau), ond yn osgoi dyblygu'r cynnwys.*

## Amcanion Strategol

Amcanion Strategol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

- Cryfhau gallu'r Cyngor i greu, amddiffyn a chynnal gwerth trwy gynnig sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, ar sail risg, a gwrthrychol.
- Cyflawni'r mandad archwilio mewnol (sydd yn y Siarter Archwilio Mewnol)
- Cael ei gydnabod fel arweinydd o ran darparu gwasanaethau archwilio ac ymchwilio ar sail cyflawni safon uchel o broffesiynoldeb ac arbenigedd o ran darparu gwasanaethau.
- Darparu gwasanaethau archwilio yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, yn ddarostyngedig i'r dehongliadau a'r gofynion ychwanegol a nodir yn Nodyn Cymhwyso'r Safonau yn Sector Cyhoeddus y DU, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU.
- Gweithredu cynllun o ymgysylltiadau archwilio sicrwydd, sy'n ddigonol er mwyn cyhoeddi barn flynyddol lawn y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor.
- Sicrhau gwerth trwy alinio'r Cynllun Archwilio â strategaethau, amcanion a risgiau'r Cyngor a thrwy gynnig sicrwydd archwilio a chymorth cadarn.
- Cynorthwyo rheolwyr i ddatblygu a chynnal diwylliant lle deallir ym mhob rhan o'r sefydliad bod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn annerbyniol.
- Datblygu a chynnal gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd cryf yn y Timau Archwilio.

## Gweledigaeth a Chenhadaeth

Ein diben yw cryfhau gallu'r Cyngor i greu, amddiffyn a chynnal gwerth trwy gynnig sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, ar sail risg a gwrthrychol. Ein nod yw cael ein cydnabod fel arweinydd o ran darparu gwasanaethau archwilio ac ymchwilio, ar sail cyflawni safon uchel o broffesiynoldeb ac arbenigedd o ran darparu gwasanaethau.

## Siarter Archwilio Mewnol

Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn sefydlu mandad y swyddogaeth archwilio mewnol, sefyllfa Archwilio Mewnol yn y sefydliad, perthynas adrodd y Rheolwr Archwilio â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, perthnasoedd adrodd ehangach, hawliau mynediad, cwmpas gwaith, mathau o wasanaethau, a manylebau eraill.

Mae hefyd yn nodi sut rydym yn darparu gwasanaethau archwilio yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Safonau), yn ddarostyngedig i'r dehongliadau a'r gofynion ychwanegol a nodir yn Nodyn Cymhwyso'r Safonau yn Sector Cyhoeddus y DU (Nodyn Cymhwyso), a'r Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (Cod). Drwy gydymffurfio â'r safonau hyn, mae pob aelod o'r adran yn cydymffurfio â gofynion Moeseg a Phroffesiynoldeb y Safonau.

## Y Cynllun Archwilio Mewnol

### Diben

Yn unol â diben cyffredinol archwilio mewnol, fel y nodir yn yr adran 'gweledigaeth a chenhadaeth', rydym yn helpu Cyngor Caerdydd i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig a disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd amgylchedd rheoli llawn y sefydliad o ran prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu.

Prif ofyniad i'r Tîm Archwilio yw gweithredu cynllun o ymgysylltiadau archwilio sicrwydd, sy'n ddigonol er mwyn cyhoeddi barn flynyddol lawn y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor, yn cynnwys llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Rydym hefyd yn rhoi sicrwydd craidd i'r Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn berthnasol i'w cyfrifoldebau nhw.

Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau cynghori, yn gyffredinol ar gais y Rheolwyr am ragwelediad, mewnwelediad ac arweiniad annibynnol ar feysydd rheoli wrth newid / datblygu prosesau, neu lle mae angen am gymorth wedi'i nodi. Ein nod yw sicrhau gwerth trwy alinio'r Cynllun Archwilio â strategaethau, amcanion a risgiau'r Cyngor, a thrwy gynnig sicrwydd a chymorth archwilio cadarn.

Mae'r Tîm Ymchwilio yn gwneud amrywiaeth o waith rhagweithiol ac adweithiol er mwyn atal a datgelu twyll. Rydym yn cynorthwyo rheolwyr i ddatblygu a chynnal diwylliant o ddeall ym mhob rhan o'r sefydliad bod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn annerbyniol ac y gweithredir yn llym i atal a chanfod colledion twyll, dwyn twyllwyr i gyfrif yn gyflym ac yn effeithiol, ac adennill unrhyw golledion.

Yr amddiffyniad cyntaf yw'r amgylchedd rheoli mewnol ym mhob cyfarwyddiaeth, sy'n gofyn am ddiwylliant o atebolrwydd, dim goddef twyll a gweithredu dulliau rheoli yn gadarn.

### Y broses

Mae ein Cynllun Archwilio Mewnol ar sail risg yn cael ei baratoi'n flynyddol ac mae'n destun adolygiad parhaus trwy gydol y flwyddyn. Mae'n cael ei addasu yn ôl yr angen mewn ymateb i newidiadau mewn risgiau, rhaglenni, systemau a rheolaethau, a gwaith a chanfyddiadau darparwyr sicrwydd eraill.

Bydd ein cynllun archwilio yn alinio â strategaethau, amcanion a risgiau'r Cyngor, a chaiff ymgysylltiadau archwilio eu blaenoriaethu er mwyn eu darparu trwy fapio sicrwydd wrth weithredu'r model 'tair llinell', a phroses o gydlynu a dibynnu er mwyn cyfrif am ffynonellau sicrwydd ehangach perthnasol o ran amseru a ffocws archwiliadau sydd wedi'u cynllunio.

Cawn wybodaeth er mwyn datblygu ein cynllun trwy:

- Ymgysylltu’n rheolaidd â’r Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 a chyfarwyddwyr.
- Presenoldeb y Rheolwr Archwilio yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli Sicrwydd.
- Monitro adroddiadau rheoleiddiol / ymchwilio / sicrwydd, risgiau, strategaeth, gweithgarwch y Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd â Swyddfa Archwilio Cymru i drafod a chydlynu gwaith.

Rydym yn bwriadu gwneud archwiliadau sylfaenol (ar systemau ariannol craidd) bob yn ail flwyddyn. Gall archwiliad sylfaenol ddigwydd mewn blwyddyn ganol fel ymateb i wybodaeth / sicrwydd archwilio. Er mwyn parhau i ddibynnu ar fframwaith sicrwydd y Cyngor, byddwn yn cynllunio gwneud archwiliad ar Reoli Risg yn flynyddol.

Bydd y Tîm Ymchwilio yn casglu gwybodaeth am arfer gorau a gwybodaeth arall trwy rwydweithio, yn ymchwilio i atgyfeiriadau at ganlyniad priodol, yn ymgysylltu ag Archwilio Cymru a Swyddfa’r Cabinet wrth gynnal ymarferion paru data i nodi ac adolygu twyll ac anghysondebau posib ac yn arwain agenda atal twyll y Cyngor. Bydd y Tîm yn cynnig cymorth, cyngor a help gyda phob mater sy’n ymwneud â risgiau twyll yn cynnwys atal, canfod, gwyngalchu arian, gweithgarwch troseddol arall, mesurau ataliol, pholisïau a gweithdrefnau.

### Cyflawni

Caiff y Cynllun Archwilio ei gyflawni gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Bydd y Rheolwr Archwilio yn defnyddio’r adnoddau archwilio sydd ar gael i weithredu’r Cynllun Archwilio ac yn prynu adnoddau ychwanegol yn ôl y gofyn, fel y nodir yn y Siarter Archwilio Mewnol.

Caiff y Cynllun Atal Twyll ei gyflawni gan y Tîm Ymchwilio a chaiff adnoddau eu monitro a’u rheoli er mwyn bwrw’r targedau a’r amcanion a osodwyd.

Bydd y Rheolwr Archwilio’n rhoi gwybod i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Swyddog Adran 151 os nad oes digon o adnoddau ar gael i ddarparu’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn effeithiol.

Byddwn yn dilyn argymhellion archwilio a bydd angen tystiolaeth cleient hyd fodlonrwydd y prif archwilydd ar gyfer cau unrhyw argymhelliad ‘coch’ neu ‘goch/oren’.

## Adnoddau

### Rheoli Adnoddau Ariannol

Bydd y Rheolwr Archwilio yn datblygu cyllideb sy'n galluogi gweithredu'r strategaeth archwilio mewnol a chyflawni'r cynllun yn llwyddiannus. Mae'r dull o reoli adnoddau ariannol fel a ganlyn.

- Bydd y Rheolwr Archwilio yn ystyried yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth archwilio mewnol a chyflawni'r cynllun yn barhaus.
- Bydd y gyllideb archwilio yn cael ei chymeradwyo yn unol â phrosesau corfforaethol, nid gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Fodd bynnag, bydd y

Rheolwr Archwilio yn cyfleu effaith cyfyngiadau adnoddau annigonol i’r uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn brydlon.

- Bydd y Rheolwr Archwilio yn rheoli gweithgareddau dyddiol y swyddogaeth archwilio mewnol yn effeithiol ac yn effeithlon, yn unol â'r gyllideb a bydd sefyllfa reoladwy’r gyllideb yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn adroddiad blynyddol.
- Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau bod gan staff archwilio gyfuniad priodol o hyfforddiant a goruchwyliaeth, yn unol â'r cynllun hyfforddi a'r cynllun sicrwydd ansawdd a gwella i gyflawni amcanion archwilio'n effeithiol. Os nad oes digon o wybodaeth na sgiliau o fewn y tîm i gyflawni unrhyw faes o'r cynllun archwilio, rhoddir ystyriaeth i brynu arbenigedd i mewn i gyflawni amcanion yr archwiliad.

## Rheoli Adnoddau Dynol

Mae'r strategaeth adnoddau dynol yn canolbwyntio ar gyflawni'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth a'r genhadaeth, ac i roi barn archwilio lawn bob blwyddyn. Mae'r Rheolwr Archwilio yn pennu'r staff archwilio, y sgiliau, y rhinweddau a'r nodweddion eraill sy'n angenrheidiol. Bydd unrhyw gyfyngiadau adnoddau yn cael eu cyfleu i'r uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r dull o reoli adnoddau dynol fel a ganlyn.

- Mae polisïau a gweithdrefnau corfforaethol y Cyngor yn cael eu dilyn ym mhob proses adnoddau dynol.
- Mae trefniadau cynllunio gweithlu ar gyfer archwilio mewnol wedi'u cynnwys yn adrannau cyllid y cynllun gweithlu a chofrestr risgiau’r gyfarwyddiaeth ac yn cael eu diweddaru yn unol â gofynion corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ystyried recriwtio, cadw, cynllunio olyniaeth ac ategu'r adnodd mewnol lle y bo angen trwy brynu adnoddau.
- Fel rhan o gynllun hyfforddeion Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), mae trefniadau i bob hyfforddai dreulio blwyddyn mewn archwilio mewnol fel rhan o'i ddatblygiad proffesiynol.
- Gall archwilwyr gyflwyno ceisiadau am hyfforddiant ôl-fynediad, byddant yn cael eu hystyried gan y rheolwr archwilio, a chaiff penderfyniadau eu gwneud gan y tîm rheoli cyllid (y mae'r Rheolwr Archwilio yn aelod ohono).
- Mae trefniadau hyfforddi a goruchwylio yn y gwaith ar waith fel rhan o'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella.
- Mae taflenni pwyntiau adolygu a dysgu yn cael eu cwblhau fel rhan o sicrwydd ansawdd cyn cyhoeddi adroddiadau drafft, ac mae asesiadau ôl-archwilio yn cael eu cwblhau gydag adborth gan y cleient, yn ogystal â'r adolygydd a'r archwiliad ar gyflawni'r ymgysylltiad archwilio yn effeithiol. Mae hyn yn rhoi cyfle i archwilwyr mewnol dderbyn adborth adeiladol gan archwilwyr mewnol mwy profiadol mewn rolau goruchwylio.
- Mae Cynllun Hyfforddi ar waith ar gyfer pob archwilydd, a chaiff adolygiadau personol eu defnyddio i nodi unrhyw anghenion hyfforddi pellach, wedi'u llywio gan brosesau goruchwylio archwilio, adolygu archwilio a phwyntiau dysgu wedi'u dogfennu, ac asesiadau ôl-archwilio cysylltiedig ar bob ymgysylltiad.

## Defnyddio Technoleg

Bydd timau archwilio yn defnyddio technoleg i wella prosesau archwilio ac ymchwilio.

Bydd atebion digidol yn cefnogi’r gwaith o brofi ac adolygu mwy o ddata a gwybodaeth ac osgoi tasgau ailadroddus. Bydd hyn yn cadw amser ar gyfer dehongli ym mhob cam a sylw strategol a gweithredol i faterion perfformiad, llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol.

Bydd atebion digidol yn cael eu defnyddio fel sy'n briodol ar gyfer effeithlonrwydd ac effeithioldeb mewn prosesau, i gefnogi'r defnydd gorau o'r adnoddau staff cyfyngedig sydd ar gael. Fodd bynnag, bydd y defnydd o dechnoleg, ac unrhyw brosesu awtomataidd bob amser yn destun cyfrifoldeb a gwirio archwilio. Bydd gweithwyr TG proffesiynol yn ceisio cymorth a dealltwriaeth dechnegol fel y bo'n briodol ynghylch y potensial y gellir ei ddatgloi o dechnoleg.

Mae ymrwymiad i reoli cynnydd yn y defnydd o dechnoleg ym mhob un o'r pedwar cam o ymgysylltiad archwilio (cynllunio, gwaith maes, adrodd a dilyn i fyny).

- Bydd awtomeiddio yn cael ei ddefnyddio ar gyfer monitro ac adrodd argymhellion i swyddogion ac Aelodau. Mae ystod o adroddiadau trafodiadol wedi'u datblygu sy'n cael eu rhedeg gan archwilwyr, ac mae opsiynau ar gyfer awtomeiddio ac adrodd eithriadau yn cael eu hystyried.
- Dadansoddeg Data – mae ymarferion dadansoddeg data prynu a chyflogres yn cael eu cynnal gan y tîm archwilio. Mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan yn rheolaidd yng ngweithgareddau paru data’r Fenter Twyll Genedlaethol ac wedi caffael setiau data paru data ehangach at ddibenion rheoli mewnol ac atal twyll. Bydd cyngor a sicrwydd yn parhau i gael eu rhoi ar ddefnydd y Cyngor o ddadansoddeg data, er enghraifft o fewn cyllid trafodiadol. Mae allbynnau cysylltiedig yn cael eu hadolygu a'u cwestiynu fel rhan o adolygiadau archwilio.
- Mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei gyflwyno yn unol â chanllawiau corfforaethol a chyngor proffesiynol arfer gorau.

## Cefnogi Mentrau

Er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflawni Amcanion Strategol y gwasanaeth:

- Bydd hyfforddiant yn cael ei roi o fewn y timau ac yn ehangach ar draws y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei dargedu trwy'r Cynllun Hyfforddi Archwilio Mewnol a thrwy ymgyrchoedd hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor dan arweiniad y gwasanaeth archwilio.
- Mae’r defnydd effeithiol o dechnoleg i wella prosesau archwilio ac ymchwilio yn fenter allweddol, fel y nodir yn yr adran 'defnyddio technoleg'.
- Bydd rhwydweithio ac ymgysylltu proffesiynol yn cael eu defnyddio i rannu gwybodaeth, syniadau a phrofiadau gyda'n cyfoedion a'n hymgynghorwyr proffesiynol ar ddarparu a gweithredu ein gwasanaethau archwilio ac atal twyll.

## Datblygu Archwilio Mewnol

Mae’r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella (RhSAG) yn y Siarter Archwilio Mewnol yn crynhoi ein dull rheoli perfformiad, ar lefel archwilwyr unigol a thimau. Mae’r dull hwn yn cynnig adolygiad blynyddol, parhaus ac asesiad allanol bob pum mlynedd ar gyfer adrodd ar gydymffurfiaeth barhaol â’r Safonau, y Nodyn Cymhwyso a’r Cod.

Bydd y Rheolwr Archwilio yn monitro’n barhaus y sgiliau gwybodaeth a’r rhinweddau eraill y mae eu hangen i gyflawni’r cynllun archwilio bob blwyddyn. Bydd yr holl archwilwyr gweithredol yn cynnal asesiad sgiliau yn flynyddol a chaiff hyfforddiant a datblygiad personol eu rhoi yn unol â hynny.

## Adrodd Arolygol ar gyfer Gweithgarwch Archwilio Mewnol

O leiaf bob chwarter, bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a chydymffurfiaeth â’r Safonau, y Nodyn Cymhwyso a’r Cod, a bydd yn rhoi gwybodaeth hanfodol am y cynnydd yn erbyn Cynlluniau’r Tîm Ymchwilio ac Archwilio Mewnol, a’r canfyddiadau craidd.

Caiff crynodeb gweithredol o unrhyw adroddiadau archwilio anfoddhaol ei roi i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Aelod Cabinet ar gyfer y Portffolio pan fo’r archwiliad wedi’i gwblhau.

Bydd y Rheolwr Archwilio yn llunio Adroddiad Blynyddol a fydd yn bennaf yn cynnwys:

- Barn flynyddol ar y fframwaith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheoli.
- Crynodeb o’r gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd y mae’r farn yn deillio ohono.
- Canlyniadau adolygiad blynyddol ar berfformiad y Tîm Archwilio Mewnol yn erbyn y RhSAG a chydymffurfiaeth â’r Safonau, y Nodyn Cymhwyso a’r Cod.

Caiff Adroddiad Blynyddol ar wahân ei baratoi ar gyfer y Tîm Ymchwilio, a fydd yn amlinellu’r gwaith a gwblhawyd, ei effaith, y cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith a’r camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Chris Pyke - Rheolwr Archwilio, Cyngor Caerdydd.**